



AT:

AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL YNG NGHYMRU

**- PRIF SWYDDOGION CYNLLUNIO A SWYDDOGION SY’N ARWAIN AR
GYNLLUNIAU LLEOL**

Copiâu at: Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru;
Cadw; Arolygiaeth Cynllunio Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru; Y Sefydliad Cynllunio Trefol
Brenhinol yng Nghymru; Cymorth Cynllunio Cymru

Ein cyf.: CL-01-11 (APAA-08-33-004)

Dyddiad: 17eg Chwefror 2011

Annwyl Gyfaill,

Llythyr Egluro Polisi CL-01-11

**Cynlluniau Datblygu Lleol - Y Weithdrefn ar gyfer Cynnal Arfarniadau o
Gynaliadwyedd ar gyfer Sylwadau ar Safleoedd Amgen**

Dylid ystyried y llythyr hwn ar y cyd â Llythyr Egluro Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ([CL-01-2010](#)) dyddiedig 19 Ionawr 2010 ynghylch arfarniadau o gynaliadwyedd ar gyfer sylwadau ar ddyraniadau safleoedd. Ceisia CL-01-2010 sicrhau, pan fo gwybodaeth gefnogol ar gyfer arfarniad o gynaliadwyedd yn cael ei chyflwyno gan y cynigydd, fod y cyrff ymgynghorol amgylcheddol perthnasol yn cael eu hysbysu, a'u bod yn cael cyfle i roi eu sylwadau. Nid yw'r sefyllfa hon wedi newid.

Nodir yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Mehefin 2006) (y llawlyfr) y dylai cynigwyr o safleoedd newydd sydd wedi'u cynnig yn ystod cyfnod adneuo'r cynllun, ddarparu'r wybodaeth briodol ar arfarniad o gynaliadwyedd. Trwy wneud hyn fe sicrhewr fod y safle yn medru cael ei ystyried yn ystod proses archwilio'r cynllun, ac fe sicrhewr cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau ar Asesiad Amgylcheddol Strategol. Y mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru eisoes wedi cyhoeddi cyngor pellach ar safleoedd amgen, a cheir yr wybodaeth hon ar eu gwefan, http://www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/cym/appeals/local_dev_index_w.htm.

Y mae safleoedd newydd neu amgen sydd yn cael eu cynnig yn ystod y cyfnod adneuo, yn enwedig y rhai hynny sydd heb gael eu hyrwyddo'n ystod y cyfnod safleoedd posibl cyn-adneuo, yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y cynigydd i ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar y cam hwn o baratoi'r cynllun, gan gynnwys yr wybodaeth briodol ar yr arfarniad cynaliadwyedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu bod y llawlyfr (paragraff 7.5.2) a'r "Hysbysiad o Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo ar gyfer Cynllun

Datblygu Lleol” (Llawlyfr CDLI, Hysbysiad 2, Mehefin 2006) yn rhybuddio'r cynigydd o'r wybodaeth gefnogol berthnasol sydd ei hangen wrth gyflwyno safle amgen. Mae ffurflenni enghreifftiol diwygiedig CDLI yr Arolygiaeth Gynllunio ar eu gwefan yn cynnwys cwestiwn sy'n gofyn a oes asesiad o gynaliadwyedd wedi ei gwblhau a cheir nodyn ar ddiwedd y ffurflen i atgoffa bod angen cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol; dylai'r cwestiwn hwn gael ei gynnwys ar y ffurflenni sylwadau.

I sicrhau bod cynigwyr safleoedd amgen yn hollol ymwybodol o ba wybodaeth sydd ei hangen, awgrymir bod awdurdodau cynllunio lleol yn ychwanegu brawddegau yn eu “hysbysiad 2” (mewn llythrennau italig):

“Dylai unrhyw sylw sy'n cynnig safle newydd neu estynedig ar gyfer datblygu neu un sy'n cynnig ymgorffori safle a wrthodwyd gan yr Awdurdod gynnwys gwybodaeth am gydweddoldeb y safle ag arfarniad o gynaliadwyedd y cynllun a'r graddau y caiff y gymuned ei chynnwys. *Y mae'r awdurdod wedi paratoi canllaw ar y gwaith sydd ei angen gan y cynigydd ar gyfer safleoedd amgen sy'n cael eu cynnig fel ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ac wedi darparu data sylfaenol a'r asesiad methodoleg ar ei wefan. Y mae hi'n annhebygol y bydd safle sydd heb fod yn rhan o arfarniad o gynaliadwyedd yn medru cael ei ystyried fel un addas ar gyfer dyraniad gan yr Arolygwr yn y cynllun.*”


Ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd wedi derbyn cynrychiolaeth yn cynnig safleoedd ar y cynllun adneuedig **Ile nad yw'r wybodaeth gefnogol i'r arfarniad o gynaliadwyedd wedi ei derbyn, dylai'r awdurdod atgoffa'r cynigwyr o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth o'r fath.** Dylai'r awdurdod egluro lle mae canllaw a data sylfaenol yr awdurdod ar gael i'w galluogi i'w gyflawni mor fuan â phosibl.

Hefyd, awgrymir bod yr awdurdodau cynllunio lleol yn cynnwys yn eu “Hysbysiad o Sylwadau Dyrannu Safle ar Gynllun Datblygu Lleol” (Hysbysiad 3), baragraff 3 (mewn llythrennau italig):

“Mae Atodlen o sylwadau dyrannu safleoedd, ynghyd ag *unrhyw wybodaeth gefnogol ar y gwaith arfarnu cynaliadwyedd* ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn (4) ar (5). Mae'r wybodaeth hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn (6) *ble mae'n ymarferol.* [Maent yn effeithio ar y lleoliadau canlynol:]”

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â'r Tîm Cynlluniau Datblygu (manylion isod).

Yn gywir



Rosemary Thomas

Prif Gynllunydd / Dirprwy Gyfarwyddwr
Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cangen Cynlluniau

Mark Newey – (Pennaeth y gangen) 029 2082 3732

De a Gorllewin Cymru

Elaine Ancrum 029 2082 3710

Hywel Butts 029 2082 1619

Candice Coombs 029 2082 3713

Gogledd a Chanol Cymru

Robert Newton 0300 062 5427

Heledd Cressey 0300 063 5426

Carole Doyle 029 2082 6956
Stacey Pritchard 029 2082 3730